

Amcanion Lles Cyngor Sir y Fflint 2017

Bydd y Cyngor, ynghyd â'i bartneriaid, yn cefnogi iechyd a lles y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol drwy'r amcanion strategol canlynol.

CYNGOR UCHELGEISIOL

- Cynnal twf economaidd drwy ddatblygu busnes lleol a rhanbarthol, strategaethau cyflogaeth a sgiliau.
- Datblygu'r isadeiledd cludiant a safleoedd cyflogaeth, a gwasanaethau cludiant, ehangu mynediad at safleoedd cyflogaeth a hyfforddiant.
- Creu cyflenwad o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth amrywiol ac o ansawdd.

CYNGOR SY'N CYFLAWNI

- Darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel, sydd yn hygyrch, yn ymatebol ac yn gost effeithiol.
- Darparu gwasanaethau cydgysylltiedig gyda phartneriaid sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n cefnogi ansawdd bywyd mewn cymunedau ar gyfer unigolion a theuluoedd.
- Parhau i fod yn sefydliad sector cyhoeddus arloesol sy'n perfformio'n dda sydd â gwerthoedd cymdeithasol.

CYNGOR SY'N GOFALU

- Sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd ar gyfer pob deiliadaeth.
- Gwneud ymyraethau cynnar i gefnogi byw'n iach a byw'n annibynnol.
- Cynnal marchnad leol o ddarpariaeth gwasanaeth o safon uchel a fforddiadwy i bobl sy'n ddibynnol iawn ar gefnogaeth gofal.
- Amddiffyn pobl rhag tlodi drwy wneud y mwyaf o'u hincwm a gwneud y mwyaf o'u cyflogadwyedd.
- Rhoi cyfle cyfartal i bawb fyw bywyd llawn.
- Amddiffyn pobl rhag y perygl o unrhyw ffurf o gamdriniaeth.

- Gwneud cymunedau yn llefydd diogel drwy weithio gyda phartneriaid i atal troseddu, troseddu ailadroddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

CYNGOR SY’N CYSYLLTU

- Ymrwymo i fodolau gwasanaeth gwydn i gynnal gwasanaethau cyhoeddus lleol.
- Cefnogi cymunedau lleol i fod yn wydn ac yn hunangynhaliol.
- Ehangu mynediad digidol i wasanaethau cyhoeddus.

CYNGOR GWYRDD

- Lleihau’r defnydd o ynni a defnyddio a datblygu ynni adnewyddadwy/amgen.
- Gwella’r amgylchedd naturiol a hyrwyddo mynediad i ofod agored a gwyrdd.
- Gwneud y mwyaf o adfer ac ailgylchu gwastraff.

CYNGOR SY’N DYSGU

- Cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial.
- Cefnogi dysgwyr o 3 i 18 oed i anelu at lefelau uchel o gyrhaeddiad a chyflawniad addysgol.
- Darparu cyfleoedd dysgu ac amgylcheddau dysgu o safon uchel ar gyfer dysgwyr o bob oed.